ADRODDIAD I'R:

AWDURDOD TÂN AC ACHUB

DYDDIAD: 21ain o Ebrill 2008	**CYFEIRNOD:**

TESTUN: Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008

CRYNODEB :

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn cynnal adolygiad o Gôd Ymddygiad presennol yr Aelodau ers peth amser. Yn ystod y broses, gwnaeth ein Pwyllgor Safonau osodiadau manwl ar ran yr Awdurdod hwn.

Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008, ac mae copi ohono'n amgaeëdig fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn. Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) 2001, a'r offerynnau statudol i'w ddiwygio'n flaenorol, ac mae'n gosod Côd Enghreifftiol diwygiedig. Daw'r Côd enghreifftiol newydd i rym ar y 18fed o Ebrill 2008, a bydd yn gymwys i bob Cyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Sir yng Nghymru, Cynghorau Cymuned, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol.

Mae'n bwysig nodi bod darpariaethau'r Côd yn orfodol i bob Awdurdod i'w mabwysiadu. Mae'n bosib mewnosod ychwanegiadau yn lleol, sy'n mynd tu hwnt i'r gofynion statudol, ond ni ellir hepgor unrhyw un o'r darpariaethau gorfodol. Yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Ebrill 2008, penderfynodd y Pwyllgor Safonau argymell i'r Awdurdod fabwysiadu'r Côd enghreifftiol.

AMCANION		**GOBLYGIADAU**	
Cael pobl i'n parchu ac ymddiried ynom	Oes	Rheoli Risg Weithredol	
Mwy nag argyfyngau		Lleihau risg yn y gymuned	
Achub bywydau a diogelu cymunedau		Dysgu a Datblygu	Oes
Rheoli o fewn y gyllideb		Argyfyngau Sifil a Gwydnwch	
Gwella effeithlonrwydd		Cyllid a Chaffaeliad	Oes
Adnoddau i flaenoriaethau		A.D	
Adnoddau eraill		TGCh	
Rheoli Pobl		CCChA	
Cynllunio ar gyfer rheoli integredig		Trafnidiaeth	
Gwaith partneriaeth		Iechyd a Diogelwch	
Pobl effeithiol ac awdurdodedig	Oes	Adeiladau	
		Cynaladwyedd a'r Amgylchedd	
		Iaith Gymraeg	
		Cyfreithiol	Oes
		Rheolaeth	Oes
		Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Oes

SYLWADAU/ARSYLWADAU AR YR AMCANION/GOBLYGIADAU UCHOD:

Bydd cyflwyno'r Côd newydd yn newid y fframwaith moesegol mae Aelodau'r Awdurdod yn gweithredu oddi fewn iddo, a bydd angen rhoi hyfforddiant i'r Aelodau a'r swyddogion perthnasol.

ARGYMHELLION:

- Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol, fel yr amlinellwyd yn yr Atodiad i'r Adroddiad hwn, a bod darpariaethau'r Côd yn dod i rym ar y 5ed o Fai 2008.
- Er dibenion paragraff 17 o'r Côd, mai y gwerth i'w nodi parthed ag unrhyw rodd, lletygarwch, budd materol neu fantais fydd £25.
- Bod y trothwy a amlinellwyd yn 3.2 uchod yn cael ei adolygu pan fydd manylion am y lefel a osodwyd gan awdurdodau cyfansoddol yn hysbys.

PAPURAU CEFNDIR A DDEFNYDDIWYD WRTH BARATOI'R ADRODDIAD HWN:

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008

Awdur(on) yr Adroddiad a'u Swyddi	Arwyn T Howells, Clerc / Swyddog Monitro
Rhif ffôn/Estyniadau	0870 60 60699, Estyniad 4461